Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 52/2014

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Arolwg Busnes Twristiaeth Cymru Cam 1, 2014

**Arolwg Busnes Twristiaeth Cymru – Cam 1, 2014**
**Ymchwil ar ran Croeso Cymru**

**Sarah McDonough, Beaufort Research Ltd.**

30 years of intelligent research

Barn yr ymchwilydd ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Ella Hastings
Uwch Swyddog Ymchwil
Gwasanaeth Dadansoddol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Canolfan QED, Stad Ddiwydiannol Trefforest
Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR

Rhif Ffôn: 0300 061 6038
Ebost: ella.hastings@wales.gsi.gov.uk
ISBN: 978-1-4734-1497-6
Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 23 Mai 2014
© Hawlfraint y Goron 2014

**CYNNWYS** **TUDALEN**

**CANFYDDIADAU ALLWEDDOL** .................................................................. 1

**1. CYFLWYNIAD AC AMCANION** .................................................................. 3

**2. METHODOLEG** .................................................................. 4

**3. PRIF GANFYDDIADAU** .................................................................. 6

3.1 Hyder Busnesau .................................................................. 6
3.2 Gwybodaeth am ymchwil i’r farchnad .................................................................. 11
3.3 Cymryd rhan mewn ymchwil i’r farchnad .................................................................. 18

**ATODIAD**

**HOLIADUR YR AROLWG**

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

### Hyder busnesau

- Roedd oddeutu dwy ran o bump (44%) o'r holl fusnesau a sefydlwyd er dros 12 mis wedi cael mwy o westeion/ymwelwyr y Pasg hwn o gymharu â'r Pasg y llynedd gydag oddeutu un rhan o bump (19%) wedi nodi eu bod wedi cael llai. Dangoswyd y cynnydd mwyaf yn niferoedd y gwesteion/ymwelwyr mewn carafanau (55%) ac atyniadau (51%) a'r cynnydd lleiaf mewn llety hunanarlwyo (32%).

- I fusnesau oedd wedi cael mwy o westeion/ymwelwyr eleni, y gred oedd mai tywydd gwell (55%), y Pasg hwyrach (25%) a'r ymdrechion marchnata (7%) oedd wedi cyfrannu at y cynnydd yn y niferoedd. Ar y llaw arall, i'r 19% o fusnesau oedd wedi cael llai o westeion/ymwelwyr, y gred oedd mai'r tywydd gwael (28%), yr hinsawdd economaidd (11%) ac, yn ddiddorol, y Pasg hwyrach (7%) oedd i'w briodoli i hyn.

- A chysylltiad agos â niferoedd gwesteion/ymwelwyr, nododd dwy ran o dair (43%) o fusnesau oedd yn gweithredu er dros 12 mis drosiant uwch y Pasg hwn o gymharu â'r Pasg y llynedd, gyda 18% yn nodi trosiant is. Darparwyr llety hunanarlwyo oedd y rhai mwyaf tebygol o brofi trosiant is (23%) a charafanau'r rhai mwyaf tebygol o fod wedi cael trosiant uwch (55%).

- Roedd y rhan fwyaf o fusnesau'n hyderus ynghylch tymor yr haf oedd i ddod (87%), gyda 35% ohonynt yn hynod hyderus a 52% yn eithaf hyderus.

### Gwybodaeth am yr ymchwil i'r farchnad

- Roedd dwy ran o bump o fusnesau wedi gweld gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad a gynhyrchwyd gan Croeso Cymru (39%); y a ddefnyddiwyd helaethaf i gael at y wybodaeth hon oedd ar lein trwy sianelau cyfathrebu Croeso Cymru (80%), gan gynnwys y wefan, newyddlenni, e-byst neu ddolenni Twitter.

- Pan ofynnwyd i fusnesau fesur y wybodaeth am ymchwil i'r farchnad yr oeddynt wedi'i gweld, roeddynt yn eithaf canmoliaethus. Y nodweddion a gafodd y sgôr fwyaf cadarnhaol oedd hawdd deall y wybodaeth/gwaith ymchwil; rhoes dwy ran o dair (66%) sgôr gadarnhaol, gyda 23% yn sgorio 5 (da iawn), a 43% arall yn sgorio 4 (eithaf da).

- Cafwyd y sgoriau lleiaf cadarnhaol ar gyfer perthnasedd y wybodaeth i'r busnes; rhoes 36% sgôr o 4 neu 5, gyda chwarter (25%) yn rhoi sgôr negyddol o 1 (gwael iawn) neu 2 (eithaf gwael).

- Ymhlith y busnesau **nad** oedd wedi darllen unrhyw wybodaeth am ymchwil i'r farchnad nac adroddiadau ymchwil Croeso Cymru; datganodd chwarter o'r rhain nad oedd ganddynt amser i ddarllen deunydd o'r fath (23%). Yn gyffredinol, nid oedd ymwybyddiaeth o ba wybodaeth oedd ar gael ymhlith cyfran debyg (25%).

- Y ffurf fwyaf poblogaidd o bell ffordd o ran cael gwybodaeth oedd newyddlenni / e-newyddlenni (68%). Byddai oddeutu un rhan o bump o fusnesau oedd yn dymuno gweld gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad yn dymuno cael crynodebau o adroddiadau (gan gynnwys taenlenni oedd yn rhoi niferoedd ymwelwyr) a fideos ar lein (24% a 21%).

- Byddai'r rhan fwyaf yn dymuno cael y wybodaeth hon am ymchwil i'r farchnad yn eithaf rheolaidd. Byddai pedwar mewn pump (80%) yn dymuno cael gwybodaeth rhwng unwaith a theirgwaith bob chwarter, gyda 41% yn dweud y dymunant gael y wybodaeth ddiweddaraf yn fisol a 39% yn dweud y dymunant ei chael bob tri mis. Ar ben hynny, dymuna dwy ran o dair gael y wybodaeth hon trwy gydol y flwyddyn (66%).

### Cymryd rhan mewn ymchwil i'r farchnad

- Roedd dau ym mhob pump (43%) o'r busnesau a gyfwelwyd wedi cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil a gomisiynwyd gan Croeso Cymru, megis Arolwg Atyniadau i Ymwelwyr a'r Arolwg Deiliadaeth Ymwelwyr. Roedd 23% yn parhau i gymryd rhan gyda 20% wedi cymryd rhan yn y gorffennol ond nid oeddynt yn gwneud mwyach.

- Roedd y rhan fwyaf o'r busnesau a gymerodd ran yn y prosiectau hyn o'r farn ei bod yn bwysig cymryd rhan mewn gwaith ymchwil er mwyn gwella'r wybodaeth oedd ar gael a chynorthwyo'r sector twristiaeth yng Nghymru (26% atyniadau; 16% llety). I'r gwrthwyneb, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai hynny oedd yn dewis **peidio** â chymryd rhan na ofynnwyd iddynt wneud hynny (32% atyniadau; 19% llety).

## 1. CYFLWYNIAD AC AMCANION

Er 2004, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal Arolwg Twristiaeth Busnes Cymru. Mae'r ymchwil hon yn rhoi goleuni gwerthfawr ar sut y mae busnesau twristiaeth yng Nghymru'n perfformio, ynghyd â'u rhagolygon busnes. Yn yr arolwg ceir amrywiol gamau o waith ymchwil y flwyddyn ac ymgysylltir â sampl cynrychioladol o fusnesau llety ac atyniadau ledled Cymru.

Mae gallu'r prosiect i roi *gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad yn gyflym ac yn ôl yr angen* wedi cyfnodau gwyliau allweddol trwy gydol y flwyddyn o'r pwys mwyaf. Mae'r wybodaeth hon yn arwydd cynnar o berfformiad busnesau.

Er mwyn cyflawni'r gwaith cwblhau gofynnol yn gyflym, glynir wrth amserlen gaeth ar gyfer pob cam o'r arolwg. Y bwriad yw cynnal gwaith maes yn syth ar ôl dyddiad penodol - mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â chyfnod gwyliau'r Pasg.

Mae'r meysydd yr ymwneir â nhw yng Ngham 1 Arolwg Twristiaeth Busnes 2014 fel a ganlyn:




**Hyder busnesau**
*Nifer y gwesteion/ymwelwyr y Pasg hwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a hyder yn nhymor yr haf 2014*



**Gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad ac adroddiadau ymchwil**
*Ymwybyddiaeth o wybodaeth am ymchwil i'r farchnad ac adroddiadau ymchwil a gynhyrchwyd gan Croeso Cymru a'r defnydd ohonynt, ynghyd ag anghenion ymchwil a chymryd rhan mewn arolygon*

Yn yr adroddiad hwn ceir y prif ganfyddiadau a gyfyd o'r arolwg.

## 2. METHODOLEG

Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn gan ddefnyddio technoleg CATI (Cyfweld dros y Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur) o uned gyfweld bwrpasol Beaufort Research. Cymerodd y cyfweliadau oddeutu 5 - 6 munud i'w cwblhau a chynigiwyd i'r holl ymatebwyr y dewis o gynnal y cyfweliad yn eu dewis iaith, Cymraeg neu Saesneg. Cafodd cyfanswm o 8% o'r sampl y cyfweliad yn Gymraeg. Yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru yr oedd y mwyafrif o'r rhain (13% ar gyfer pob un), a'r isaf yn Ne-ddwyrain Cymru lle na chynhaliwyd yr un cyfweliad yn Gymraeg.

Cynhaliwyd cyfanswm o **405 o gyfweliadau** gyda gwaith maes yn cael ei gynnal rhwng yr 28$^{ain}$ a'r 30$^{ain}$ o Ebrill 2014. Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn ddydd Iau'r 8$^{fed}$ o Fai. Bu modd gwneud y gwaith yn gyflym oherwydd ymateb rhagorol y busnesau oedd yn awyddus i gymryd rhan ac yn fodlon gwneud hynny.

Ymhlith y samplau ar gyfer y gwaith ymchwil (oedd yn cynnwys busnesau heb eu graddio yn ogystal â rhai oedd wedi'u graddio) roedd busnesau llety yng Nghymru yr oedd Croeso Cymru yn gwybod amdanynt (y naill a'r llall wedi'u rhoi gan Croeso Cymru a'u canfod gan Beaufort Research). Roedd hyn ar ben yr holl atyniadau twristiaeth yng Nghymru (yr oedd Beaufort Research yn eu dal). Roedd busnesau'n ymrannu'n bedwar grŵp busnes amlwg:

- Atyniadau
- Llety â gwasanaethau
- Llety hunanarlwyo
- Meysydd carafanau

At hyn, roedd busnesau'n cael eu categoreiddio yn ôl rhanbarth. Cafodd yr Awdurdodau Unedol a ganlyn eu cynnwys ym mhob un o bedwar rhanbarth Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddi'r data:

| **Gogledd Cymru** | **Canolbarth Cymru** | **De-orllewin Cymru** | **De-ddwyrain Cymru** |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | Ceredigion | Sir Gaerfyrddin | Blaenau Gwent |
| Conwy | Gwynedd* | Castell Nedd | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Sir Ddinbych | Powys | Port Talbot | Caerffili |
| Sir y Fflint | | Sir Benfro | Caerdydd |
| Gwynedd* | | Abertawe | Merthyr Tudful |
| Wrecsam | | | Casnewydd |
| | | | Sir Fynwy |
| | | | Rhondda Cynon Taf |
| | | | Torfaen |
| | | | Bro Morgannwg |

* A fyddech cystal â nodi bod Awdurdod Unedol Gwynedd yn ymestyn dros ddau ranbarth gan Lywodraeth Cymru - Gogledd Cymru, Gogledd a Chanolbarth Cymru, gan ddibynnu ar y sector cod post.

Mabwysiadwyd dull o gymryd sampl o gwotâu, yn ôl math o fusnes a'r rhanbarth. Roedd y cwotâu a ddefnyddiwyd yn gyson â'r rhai hynny a ddefnyddiwyd mewn camau blaenorol o'r gwaith ymchwil gan arwain at broffil eithaf cynrychioladol o fusnesau a gyfwelwyd. Ni roddwyd pwys i'r data.

Yn Nhabl 1 isod, amlinellir nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda phob grŵp busnes ar draws pob un o bedwar rhanbarth Llywodraeth Cymru.

**Tabl 1 – cyfweliadau a gafwyd yn ôl math o fusnes a rhanbarth**

| Math o Fusnes | Rhanbarth | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | CYFANSWM |
| **Atyniadau** | 25 | 10 | 20 | 25 | **80** |
| **Llety – â gwasanaethau** | 40 | 25 | 25 | 30 | **120** |
| **Llety – hunanarlwyo** | 40 | 25 | 35 | 20 | **120** |
| **Llety - carafanau** | 26 | 26 | 25 | 8 | **85** |
| **Cyfanswm** | **131** | **86** | **105** | **83** | **405** |

Mae'n bwysig cofio bod y gwaith ymchwil hwn wedi ei lunio i fod yn **ddangosydd perfformiad cynnar** yn y diwydiant twristiaeth yng Nghymru tra bo ffigyrau manylach GBTS ac IPS fel arfer yn cael eu paratoi i'w rhyddhau tua chwe mis yn ddiweddarach. Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yma yn grynodeb o'r adborth gan y diwydiant ond bydd ffigyrau UKTS ac IPS yn rhoi darlun cywirach pan fyddant yn cael eu rhyddhau.

## 3. PRIF GANFYDDIADAU

### 3.1 Hyder Busnesau


Gofynnwyd i'r busnesau twristiaeth oedd wedi'u sefydlu er dros 12 mis gymharu nifer y gwesteion/ymwelwyr yr oeddynt wedi'u cael yn ystod y Pasg y llynedd. Roedd y canfyddiadau ar gyfer y cam hwn yn llawer mwy cadarnhaol na'r hyn a welwyd dros Basg 2013.

Yn 2014, dywedodd oddeutu dwy ran o bump (44%) eu bod wedi derbyn mwy o westeion y Pasg hwn o gymharu â'r Pasg y llynedd. 14% yn unig ddywedodd yr un peth yn ystod Pasg 2013.

Dros y Pasg eleni, un rhan o bump yn unig (19%) ddywedodd eu bod wedi derbyn llai o westeion/ymwelwyr (o gymharu â 49% dros Basg 2013).

Wrth edrych ar y data yn ôl math busnes, dangoswyd mai carafanau (55%) ac atyniadau (51%) oedd cyfran uchaf y busnesau oedd yn cael y mwyaf o westeion/ymwelwyr ac er bod oddeutu dwy ran o bump (44%) o fusnesau llety â gwasanaethau yn honni eu bod wedi cael mwy o westeion y Pasg hwn o gymharu â'r Pasg diwethaf, un rhan o dair yn unig (32%) o fusnesau llety hunanarlwyo ddywedodd yr un peth. Ar ben hynny, dywedodd cyfran debyg o fusnesau llety hunanarlwyo (28%) eu bod wedi cael llai o westeion dros Basg 2014 o gymharu â Phasg 2013. Gweler ffigwr 1 isod.

**Ffigwr 1**



Wrth edrych ar nifer gwesteion/ymwelwyr yn ôl rhanbarth, yng Nghanolbarth Cymru (48%) a Gogledd Cymru (47%) y nodwyd cyfran uchaf y busnesau oedd yn nodi eu bod yn cael mwy o westeion/ymwelwyr, tra yn Ne-orllewin Cymru oedd y gyfran uchaf a nododd eu bod yn cael llai.

Ymhlith y busnesau hynny oedd wedi cael mwy o westeion/ymwelwyr, honnodd y rhan fwyaf (55%) mai'r tywydd gwell oedd y rheswm am hyn gyda chwarter arall (25%) yn priodoli eu cynnydd mewn busnes i'r Pasg hwyrach.

Crybwyllwyd ffactorau eraill gan gyfrannau sylweddol llai o fusnesau. 7% yn unig a deimlai bod eu hymdrechion marchnata eu hunain wedi arwain at gynnydd yn y niferoedd tra bod 3% o'r farn bod busnes mynych neu gynnydd mewn twristiaeth wedi bod yn ffactorau oedd yn penderfynu ar y canlyniadau. Gweler Tabl 2 isod am fwy o fanylion

**Tabl 2**

| Beth fyddai'r rheswm yn eich barn chi i chi gael mwy o westeion /ymwelwyr (yn wirfoddol)? | % busnesau |
|---|---|
| Tywydd gwell | 55 |
| Pasg hwyrach | 25 |
| Eich gwaith marchnata eich hun | 7 |
| Busnes mynych | 3 |
| Cynnydd mewn twristiaeth | 3 |
| Digwyddiadau yn yr ardal | 2 |
| Mwy o bobl yn aros yn y Deyrnas Unedig | 1 |
| Ystafelloedd/cyfleusterau gwell | 1 |
| Argymhellion | 1 |
| Mwy o welyau / cyfleusterau ac ati | 1 |
| Hysbysebion teledu Croeso Cymru | 1 |
| Arall | 32 |
| Dim yn gwybod | 8 |

Sylfaen = busnesau'n masnachu er 12+ mis gyda mwy o ymwelwyr y Pasg hwn o gymharu â'r llynedd (177)

Ymhlith rhai o'r ffactorau 'eraill' mae:

- Cael gwyliau ysgol gwahanol i Loegr (ac felly'n cynyddu cyfnod cyffredinol y gwyliau)
- Cynnal digwyddiadau ychwanegol (e.e. arddangosfa hebogiaid) a mwy o gyfleusterau
- Dathliadau DT100
- Busnesau'n marchnata'n well
- Newidiadau i'r sustemau archebu.

O’r busnesau hynny a ddywedodd eu bod wedi cael llai o westeion/ymwelwyr y Pasg hwn, roedd bron i draean (28%) o’r farn mai’r rheswm dros hyn oedd nad oedd y tywydd wedi bod yn dda eleni gydag un ym mhob deg (11%) yn nodi eu bod o’r farn bod eu niferoedd isel i’w priodoli i’r hinsawdd economaidd. Dyma oedd y rhesymau a grybwyllwyd amlaf am y cwymp mewn masnach.

Yn ddigon diddorol, er bod chwarter o fusnesau oedd yn gweld cynnydd yn niferoedd y gwesteion/ymwelwyr yn priodoli hyn i’r Pasg hwyr, roedd 7% o’r rhai oedd yn nodi cwymp yn nodi eu bod o’r farn mai Pasg hwyrach yn 2014 oedd y rheswm am hyn.

Nododd cyfrannau llai (4% i bob un) bod cystadleuaeth gref neu gwymp mewn twristiaeth yn yr ardal wedi cyfrannu at ffigyrau is eu gwesteion/ymwelwyr – rhoddwyd y rheswm olaf hwn (cwymp mewn twristiaeth) gan ychydig yn fwy o fusnesau yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru (6%) o gymharu ag yn Ne-orllewin (4%) a De-ddwyrain Cymru (0%). Gweler Tabl 3 isod am fwy o fanylion.

**Tabl 3**

| **Beth fyddai’r rheswm yn eich barn chi i chi gael llai o westeion /ymwelwyr (yn wirfoddol)?** | **% busnesau** |
|---|---|
| Y tywydd ddim cystal | 28 |
| Hinsawdd economaidd | 11 |
| Pasg hwyrach | 7 |
| Cystadleuaeth gref | 4 |
| Cwymp mewn twristiaeth yn yr ardal | 4 |
| Heb hyrwyddo’r busnes | 3 |
| Problemau na chafodd eu rhagweld | 1 |
| Llai o ymwelwyr o dramor | 1 |
| Arall | 40 |
| Dim yn gwybod | 23 |

Sylfaen = busnesau’n masnachu er 12+ mis gyda llai o ymwelwyr y Pasg hwn o gymharu â’r llynedd (75)


Ymhlith rhai o’r rhesymau ‘eraill’ am gwymp yn niferoedd y gwesteion/ymwelwyr, roedd:

- Gostyngiadau mewn gwyliau byrrach o gymharu â gwyliau hwy
- Mwy o dai haf yn eu hardal
- Llifogydd
- Pobl yn archebu’n hwyrach
- Pobl yn canslo.

Pan ofynnwyd i fusnesau gymharu trosiant cyffredinol eu busnesau am y Pasg eleni, nid yw'n syndod bod y canfyddiadau'n adlewyrchu'r rhai hynny a welwyd ar gyfer nifer gwesteion/ymwelwyr. Dywedodd tua dwy ran o dair (43%) bod eu trosiant wedi bod yn uwch eleni a datganodd tua un rhan o bump (18%) iddo fod yn is. Dywedodd (31%) bod trosiant y Pasg hwn wedi bod tua'r un fath â'r hyn a welwyd y llynedd. Unwaith eto, mae'r canfyddiadau hyn yn fwy cadarnhaol na'r rhai hynny a welwyd dros Basg 2013, pryd 17% yn unig a nododd gynnydd mewn trosiant a hanner (50%) yn nodi gostyngiad mewn trosiant.

Yn 2014, meysydd carafanau oedd yn fwyaf tebygol o nodi bod eu trosiant yn uwch y Pasg hwn o gymharu â'r Pasg y llynedd (55%). Ar y llaw arall, darparwyr llety hunanarlwyo oedd yn fwy tebygol o nodi gostyngiad mewn trosiant (23%). Gweler Ffigwr 2 isod am fwy o fanylion.

**Ffigwr 2**





O ran rhanbarth, nododd mwy o fusnesau yng Ngogledd Cymru gynnydd mewn trosiant o gymharu â'r llynedd (47%) tra bod mwy o fusnesau yn Ne-orllewin Cymru wedi nodi gostyngiad (22%). I'r gwrthwyneb, dros y Pasg yn 2013, yn Ne-orllewin Cymru oedd cyfran uchaf y busnesau a nodai gynnydd mewn trosiant (20%).

Ar y cyfan, roedd busnesau'n fwy cadarnhaol ynghylch tymor yr haf oedd i ddod o gymharu â'r adeg hon y llynedd.

Dywedodd bron i naw o bob deg (87%) eu bod yn hyderus ynghylch tymor yr haf gyda thraean (35%) yn dweud eu bod yn hyderus iawn a hanner (52%) yn honni eu bod yn eithaf hyderus. Dim ond un o bob deg busnes (10%) oedd ddim yn hyderus ynghylch yr haf oedd i ddod, gydag 8% yn nodi nad oeddynt yn hyderus iawn a 2% ddim yn hyderus o gwbl.

Ar draws y gwahanol fathau o fusnesau, roedd lefelau hyder yn eithaf cyson (ac eithrio llety hunanarlwyo). Yn gyffredinol, roedd lefelau hyder uchaf ymhlith atyniadau (94% yn hyderus) a'r busnesau hynny yng Ngogledd Cymru (89% yn hyderus). Gweler Ffigwr 3 isod.

**Ffigwr 3**



## 3.2 Gwybodaeth am Ymchwil i'r Farchnad


Gofynnwyd i bob busnes a oeddynt erioed wedi gweld unrhyw wybodaeth am ymchwil i'r farchnad a gynhyrchwyd gan Croeso Cymru.

Ychydig dan ddau ym mhob pum busnes (39%) oedd yn dweud eu bod tra bod dros hanner (54%) yn dweud nad oeddynt. Nid oedd 7% arall yn cofio a oeddynt wedi gweld y cyfryw wybodaeth a gynhyrchwyd gan Croeso Cymru.

Roedd lefelau ymwybyddiaeth o waith ymchwil yn eithaf cyson ar draws y gwahanol fathau o fusnes a rhanbarthau er eu bod fymryn yn uwch ymhlith busnesau hunanarlwyo (46%) ac yn is ymhlith meysydd carafanau (29%).

Ychydig o wahaniaethau rhanbarthol a welwyd. De-orllewin Cymru oedd yr unig ardal a ddangosodd lai o ymwybyddiaeth o wybodaeth am ymchwil i'r farchnad, lle'r oedd 31% o fusnesau wedi gweld y cyfryw wybodaeth. Yn yr holl ranbarthau eraill, roedd 42% o'r busnesau wedi gweld gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad. Gweler ffigwr 4 isod.

**Ffigwr 4**





Sylfeini'n amrywio:
Cyfanswm = 405; Atyniadau (80); gyda Gwasanaethau (120); Hunanarlwyol (120); Carafanau (85); Gogledd (131); Canolbarth (86); De-orllewin

Y ffurf a ddefnyddiwyd amlaf, o bell ffordd, i gael at y wybodaeth am ymchwil i'r farchnad a gwaith ymchwil oedd ar lein trwy sianelau cyfathrebu Croeso Cymru (80%), gan gynnwys y wefan, newyddlenni, e-byst neu ddolenni Twitter.

Roedd un o bob chwech o'r busnesau hynny oedd wedi gweld gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad wedi darllen deunydd argraffedig wedi'i gynhyrchu gan Croeso Cymru (16%). Dywedodd 8% arall eu bod wedi derbyn cyhoeddiadau ymchwil yn uniongyrchol oddi wrth Croeso Cymru, gyda 4% yn mynd i gyflwyniad ymchwil Croeso Cymru. Gweler ffigwr 5 isod.

**Ffigwr 5**



Sylfaen: busnesau sydd wedi gweld gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad (159)

Pan ofynnwyd i fusnesau fesur y wybodaeth am ymchwil i'r farchnad yr oeddynt wedi'i gweld, roeddynt yn eithaf canmoliaethus. Rhoddwyd iddynt restr o amryfal agweddau o'r wybodaeth yr oeddynt wedi'u gweld a gofynnwyd iddynt sgorio pob un ar raddfa o 1 i 5, gydag 1 yn 'Gwael iawn' a 5 yn 'Da iawn'.


Roedd y sgôr fwyaf cadarnhaol am hawdd deall y wybodaeth am ymchwil i'r farchnad. Rhoes dwy ran o dair (66%) sgôr gadarnhaol, gyda 23% yn rhoi sgôr o 5 a 43% arall yn rhoi sgôr o 4.

O ran agweddau eraill y wybodaeth, gan gynnwys defnyddioldeb, perthnasedd a pha mor ddiddorol oedd i'w darllen, rhoes oddeutu dau o bob pump sgôr gadarnhaol. Rhoes cyfanswm o 41% sgôr o 4 neu 5 am ddefnyddioldeb y wybodaeth, gyda 40% arall yn rhoi'r un sgôr am ba mor ddiddorol oedd i'w darllen.

Rhoddwyd y sgôr isaf am berthnasedd y wybodaeth i'r busnes. Rhoes 36% sgôr o 4 neu 5, tra bod chwarter (25%) wedi rhoi sgôr negyddol o 1 neu 2.

Rhoes rhwng dau a thri o bob deg busnes sgôr niwtral am y wybodaeth yr oeddynt wedi'i gweld. Gweler Ffigwr 6 isod.

**Ffigwr 6**




Gan droi at y busnesau **nad** oedd wedi darllen unrhyw wybodaeth am ymchwil i'r farchnad nac adroddiadau ymchwil a gynhyrchwyd gan Croeso Cymru, tra bod chwarter o'r busnesau hyn yn datgan nad oedd ganddynt amser i ddarllen deunydd o'r fath (23%), nid oedd yno unrhyw ymwybyddiaeth gyffredinol o ba wybodaeth oedd ar gael ymhlith cyfran debyg (25%):

- Nid oedd 13% yn sylweddoli bod Croeso Cymru yn cynhyrchu unrhyw wybodaeth am ymchwil i'r farchnad
- Nid oedd 12% wedi derbyn unrhyw wybodaeth
- Nid oedd 7% yn gwybod lle i gael hyd i'r wybodaeth hon

At hyn, nid oedd busnesau penodol yn ymgysylltu â'i gilydd, gydag 8% yn nodi nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn derbyn y cyfryw wybodaeth, roedd 5% o'r farn nad oedd gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad / gwaith ymchwil yn berthnasol i'w busnes ac nid oedd 5% arall yn agor yr e-byst yr oeddynt yn eu derbyn gan Croeso Cymru nac yn troi at eu gwefan.

Honnodd cyfran fechan (3%) eu bod yn casglu gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad a gwaith ymchwil gan ffynonellau eraill, megis Cadw neu Awdurdodau Lleol. Gweler Ffigwr 7 isod.

### Ffigwr 7



Sylfaen: busnesau **nad** ydynt wedi gweld ymchwil / gwybodaeth am y farchnad (217)


Yna gofynnwyd i bob busnes pa wybodaeth am ymchwil i'r farchnad y credant y dylai Croeso Cymru fod yn ei chynhyrchu ac a fyddai o werth i'w gweithrediadau. Ychydig dros hanner allodd roi sylw (51%), ac er y gwnaed sawl awgrym, rhoddwyd y rhan fwyaf ohonynt gan nifer fechan o fusnesau'n unig.

Yn fras, roedd un o bob ugain busnes arnynt eisiau cael gwybodaeth proffil ar ymwelwyr a natur eu hymweliadau:

- Roedd 7% arnynt eisiau mwy o wybodaeth am resymau ymwelwyr dros ddod i'r ardal, lle'r oeddynt yn ymweld ag o, pa weithgareddau yr oeddynt yn ymgymryd â nhw, maint eu grŵp, faint oeddynt yn ei wario yn yr ardal ac ati.
- Roedd 5% arnynt eisiau mwy o wybodaeth am broffil demograffig ymwelwyr, yn enwedig felly ai preswylwyr y Deyrnas Unedig oeddynt ynteu ymwelwyr o dramor.

Roedd galwadau i wella gwefan Croeso Cymru (3%), gan gynnwys cael hyd i'ch ffordd o amgylch y wefan, sicrhau bod y manylion busnes yn rhai cyfredol a darparu cyfleuster archebu. Credai 2% arall y byddai rhwydwaith ledled Cymru ar gyfer busnesau'n ddefnyddiol, gan roi iddynt gyfle i rannu syniadau, gwybodaeth ac ystadegau (megis niferoedd ymwelwyr). Gweler Ffigwr 8 isod.

**Ffigwr 8**



Gofynnwyd i'r busnesau hynny, a grybwyllodd pa wybodaeth am ymchwil i'r farchnad y dymunant ei derbyn, nodi ar ba ffurf yr oeddynt yn dymuno cael y wybodaeth.

Y ffurf fwyaf poblogaidd o bell ffordd oedd newyddlenni / e-newyddlenni (68%). Dymunai un rhan o bump arall o'r busnesau hyn gael crynodebau o adroddiadau (gan gynnwys taenlenni Excel oedd yn rhoi niferoedd yr ymwelwyr) a fideos ar lein (24% a 21%).

Dywedodd un o bob chwe busnes y byddant yn dymuno cael gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad o adroddiadau, gweithdai (16% i bob un) a chyflwyniadau (13%).

Ymhlith y ffurfiau ar lein a grybwyllwyd roedd :

- Gweminarau (9%)
- E-byst (8%)
- Gwybodaeth ar wefan / apiau symudol Croeso Cymru (3%).

Gweler Tabl 4 isod am fwy o fanylion.

**Tabl 4**

| **Ar ba un o'r ffurfiau a ganlyn y byddech yn dymuno cael gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad gan Croeso Cymru?** | **% busnesau** |
|---|---|
| Newyddlen/e-newyddlen ymchwil | 68 |
| Crynodebau o adroddiadau | 24 |
| Fideos ar lein | 21 |
| Adroddiadau ymchwil | 16 |
| Gweithdai | 16 |
| Cyflwyniadau | 13 |
| Gweminarau | 9 |
| E-byst | 8 |
| Gwybodaeth ar wefan / apiau Croeso Cymru | 3 |
| Gwybodaeth trwy'r post | 3 |
| Fforymau / seminarau busnesau | 1 |
| Arall | 1 |
| Dim/ dim yn gwybod | 7 |

Sylfaen = busnesau oedd yn dymuno cael gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad (207)


Ymhlith y busnesau hynny oedd yn gallu enwi'r ffurf yr oeddynt yn dymuno cael y wybodaeth am ymchwil i'r farchnad ac adroddiadau ymchwil arni, roedd y rhan fwyaf yn dymuno ei chael yn eithaf rheolaidd; roedd pedwar o bob pump (80%) yn dymuno cael gwybodaeth rhwng unwaith a theirgwaith bob chwarter, gyda 41% yn dweud y dymunant gael gwybodaeth bob tri mis.

13% yn unig o fusnesau yn dymuno cael gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad/ canfyddiadau'r gwaith ymchwil ddywedodd eu bod yn dymuno cael gwybodaeth yn llai aml na hyn.

Ar ben hynny, roedd y rhan fwyaf yn dymuno cael gwybodaeth yn y gwanwyn (89%). Roedd wyth o bob deg arall yn dymuno'r wybodaeth hon yn nhymhorau'r haf a'r hydref (83% a 84%), tra bod tri chwarter yn dymuno gwybodaeth yn nhymor y gaeaf (77%).

Wedi'u cyfuno, nododd 66% o fusnesau y dymunant gael gwybodaeth am ymchwil i'r farchnad trwy gydol y flwyddyn. Gweler Ffigwr 9 isod.

**Ffigwr 9**




## 3.3 Cymryd rhan mewn ymchwil i'r farchnad

Roedd dau o bob pump (43%) o'r busnesau a gyfwelwyd wedi cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil eraill a gomisiynwyd gan Croeso Cymru, megis yr Arolwg Atyniadau i Ymwelwyr a'r Arolwg Deiliadaeth Ymwelwyr. Roedd 23% yn parhau i gymryd rhan tra bod 20% wedi cymryd rhan yn y gorffennol ond wedi peidio â gwneud mwyach.

Roedd y 57% o'r busnesau oedd yn weddill wedi datgan eu bod un ai heb gymryd rhan neu nad oeddynt yn cofio gwneud hynny.

Yn Ffigwr 10 isod dangosir cyfrannau cymharol darparwyr atyniadau a llety i ymwelwyr a gymerodd ran yn y ddau arolwg hyn. Mae'n dangos sut yr oedd mwy yn cymryd rhan yn y maes atyniadau (54%) o gymharu â darparwyr llety i ymwelwyr (40%).

**Ffigwr 10**



Yna gofynnwyd i fusnesau pam y bu iddynt ddewis cymryd rhan mewn gwaith ymchwil neu pam y bu iddynt benderfynu peidio.  Roedd y rhesymau a roddwyd gan ddarparwyr atyniadau a llety yn debyg iawn. Roedd y rhan fwyaf o'r busnesau hyn o'r farn ei bod yn bwysig cymryd rhan mewn gwaith ymchwil er mwyn gwella'r wybodaeth oedd ar gael a chynorthwyo'r sector twristiaeth yng Nghymru (26% atyniadau; 16% llety).

Roedd un rhan o bump o atyniadau eisiau cael ryw gymaint o adborth a gweld sut oedd eu perfformiad yn cymharu â busnesau tebyg eraill (21%). Dywedodd un o bob chwe darparwr llety i ymwelwyr yr un peth. (13%). Roedd un o bob deg arall o'r farn y byddai cymryd rhan o fantais i'w busnes (9% ar gyfer atyniadau / llety). Fodd bynnag, nid oedd 6% o ddarparwyr llety i ymwelwyr o'r farn bod cymryd rhan o fantais i'w busnes.

Cymerodd oddeutu un o bob chwe darparwr atyniad (16%) a darparwr llety i ymwelwyr (15%) ran oherwydd, yn syml, gofynnwyd iddynt wneud hynny tra bod un o bob ugain yn cymryd rhan o arfer neu oherwydd, yn hanesyddol, roedd eu busnes yn cymryd rhan yn yr arolygon hyn erioed (7% atyniadau; 6% llety).

I 9% o ddarparwyr atyniadau a 4% o ddarparwyr llety i ymwelwyr, roedd yn ofynnol, o ran y busnes, i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil; un ai oherwydd ei fod yn amod i gael grant, roedd ar gyfer cymhellion ariannol eraill neu ei fod yn ddangosydd perfformiad allweddol (dpa) ar gyfer eu busnes. Gweler Tabl 5 am fwy o fanylion.

**Tabl 5**

| Pam ydych chi / wnaethoch chi gymryd rhan yn yr ymchwil hon? | % atyniadau | % llety |
|---|---|---|
| Mae gwaith ymchwil yn bwysig / gwella gwybodaeth sydd ar gael / cynorthwyo'r sector twristiaeth yn gyffredinol | 26 | 16 |
| Eisiau gweld sut ydym yn cymharu ag eraill / cael adborth/ gweld beth sydd yn digwydd yn y sector | 21 | 13 |
| Oherwydd y gofynnwyd i mi gymryd rhan / wedi derbyn holiadur | 16 | 15 |
| Yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol i fy musnes | 9 | 9 |
| Gofyn busnes (grant, dpa, cymhellion ariannol) | 9 | 4 |
| Jest wedi gwneud! / grym arfer / yn cymryd rhan erioed | 7 | 6 |
| Dim amser mwyach / yn cymryd yn rhy hir i'w gwblhau | 2 | 5 |
| O ddim mantais i'n busnes | - | 6 |
| Ni ofynnwyd i ni'n ddiweddar | - | 5 |
| Dim yn cymryd rhan mwyach | - | 2 |
| Byddwn yn cymryd rhan os oes gennym amser | - | 2 |
| Arall | 14 | 8 |
| Dim yn gwybod | 12 | 19 |

Sylfaen = atyniadau (43); llety (129) cymryd gwaith mewn ymchwil

Unwaith eto, roedd y rhesymau a roddwyd gan ddarparwyr atyniadau a llety i ymwelwyr dros **beidio** â chymryd rhan mewn gwaith ymchwil yn debyg. Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr atyniadau a llety heb gymryd rhan oherwydd na ofynnwyd iddynt wneud hynny (32% atyniadau; 19% llety).

Nid oedd yno ymwybyddiaeth o'r prosiectau hyn ychwaith. Nid oedd 5% o atyniadau yn ymwybodol o'r Arolwg Atyniadau i Ymwelwyr tra nad oedd un rhan o bump (19%) o'r darparwyr llety hyn yn ymwybodol o'r Arolwg Deiliadaeth Ymwelwyr.

At hyn, nid oedd oddeutu traean (30%) o'r busnesau nad oeddynt yn cymryd rhan yn ymgysylltu â'i gilydd. Nid oedd 14% o ddarparwyr llety a 5% o ddarparwyr atyniadau o'r farn bod y prosiectau ymchwil hyn yn berthnasol i'w busnes. Nid oedd 8% arall o ddarparwyr llety a 5% o ddarparwyr atyniadau â diddordeb tra bod 5% o ddarparwyr atyniadau ac 1% o ddarparwyr llety wedi cael amser i gymryd rhan.

Roedd cyfran fechan o fusnesau heb gymryd rhan oherwydd nad oeddynt wedi medru cael y wybodaeth ofynnol ynghyd (5% atyniadau; 1% llety). Gweler Tabl 6 am fwy o fanylion.

**Tabl 6**

| **Pam nad ydych yn cymryd rhan yn yr ymchwil hon?** | **% atyniadau** | **% llety** |
|---|---|---|
| Ni ofynnwyd erioed i mi gymryd rhan | 32 | 19 |
| Ddim yn ymwybodol ohoni | 5 | 17 |
| Heb gael y cyfle i wneud | 5 | 1 |
| Dim rheswm penodol / dim diddordeb | 5 | 8 |
| Dim yn berthnasol i fy musnes / dim angen | 5 | 14 |
| Dim ond wedi cymryd y busnes drosodd yn ddiweddar | 5 | 2 |
| Nid yw'r wybodaeth berthnasol gennym | 5 | 1 |
| Dim amser / rhy brysur | - | 8 |
| Arall | 5 | 4 |
| Dim yn gwybod | 32 | 29 |

Sylfaen = atyniadau (19); llety (156) **ddim** yn cymryd rhan yn yr ymchwil

# ATODIAD

## Holiadur yr Arolwg

Arolwg Busnes Twristiaeth Cymru
Holiadur Terfynol 16/04/14

DARLLENWCH YN UCHEL

Bore da\prynhawn da\noswaith dda, fy enw i yw o Beaufort Research, Asiantaeth Ymchwil i'r Farchnad Annibynnol sydd wedi'i lleoli yng
Nghymru.

Rwy'n ffonio ar ran Croeso Cymru sydd â diddordeb yn eich barn ar faterion sy'n ymwneud â thwristiaeth yng Nghymru.

Bydd yr arolwg ond yn cymryd ychydig o funudau a bydd popeth a ddywedwch chi yn aros yn gyfrinachol, gyda'r canlyniadau yn cael eu cyfuno gydag ymatebion busnesau eraill a'u hadrodd i Croeso Cymru.

Galla i wirio un peth, ai chi yw perchennog y busnes neu a oes gennych chi rôl rheoli yn y busnes?

OS NA, gofynnwch am gael siarad â rhywun sydd â rôl rheoli \ y perchennog.
RHOWCH GADARNHAD FEL BO'R ANGEN (NID YDYCH YN GWERTHU UNRHYW BETH, HYD Y CYFWELIAD, CYFRINACHEDD A CATI.)

S1 Alla i wirio - ydych chi'n siarad Cymraeg?

01: Ydy - yn rhugl
02: Ydy - ond nid yn rhugl
03: Nac ydw - nid yw'n siarad Cymraeg

S2 Gallwch gwblhau'r arolwg yn Saesneg neu yn Gymraeg. Pa iaith fyddai'n well gennych chi?

01: English \ Saesneg

C1 Ydy eich busnes wedi bod yn gweithredu am fwy na 12 mis?

01: Ydy
02: Nac ydy

C2 O gymharu â Pasg y llynedd, faint o westeion\ymwelwyr sydd wedi bod gyda chi yn ystod y Pasg eleni? A fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael?
DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

01: Mwy na'r llynedd
02: Yr un peth a'r llynedd
03: Llai na'r llynedd

C3 Pam y byddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o westeion\ymwelwyr?
PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU - AML-GODIWCH

01: Mwy o bobl Prydeinig yn aros yn y DU
02: Tywydd gwell
03: Marchnata eu hunain
04: Busnes wrth yr un bobl
05: Gwelliant mewn twristiaeth
06: Argymhellion
07: Mwy o le yn yr adeilad
08: Digwyddiadau yn yr ardal
09: Ystafelloedd\cyfleusterau gwell
10: Mwy o ymwelwyr o dramor
11: Pasg hwyrach
12: Hysbyseb teledu Croeso Cymru
13: Arall (nodwch)

C4 Pam ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael llai o westeion\ymwelwyr?
PEIDIWCH Â CHYNNIG AWGRYMIADAU - GALLWCH AMLGODIO

01: Hinsawdd economaidd
02: Tywydd ddim cystal
03: Problemau na ellid eu rhagweld
04: Cystadleuaeth gref
05: Dirywiad mewn twristiaeth yn yr ardal
06: Busnes yn tawelu
07: Llai o ymwelwyr o dramor
08: Heb hyrwyddo'r busnes
09: Pasg hwyrach
10: Arall (nodwch)

C5 O gymharu â Pasg y llynedd, sut fyddech chi'n disgrifio'r trosiant ar gyfer y Pasg eleni?
DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

01: Yn uwch na'r llynedd
02: Yr un peth a'r llynedd
03: Yn is na'r llynedd

C6 Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw adroddiad ymchwil neu gipolwg ar y farchnad wedi'i gynhyrchu gan Croeso Cymru?

01: Do
02: Naddo

C7 Ym mha fformat wnaethoch chi ddarllen am gipolwg ar y farchnad \adroddiadau ymchwil hyn?

HOLWCH YN FANYLACH: Rhywbeth arall?
DARLLENWCH YN UCHEL - COD AR GYFER POB UN A GRYBWYLLIR

01: Ar-lein drwy sianeli cyfathrebu Croeso Cymru (gwefan \ cylchlythyrau \ negeseuon e-bost \ dolenni twitter)
02: Yn uniongyrchol o gyhoeddiad ymchwil Croeso Cymru
03: Cyflwyniad ymchwil Croeso Cymru
04: Ar-lein drwy wefan arall (manylwch)
05: Deunyddiau printiedig wedi'u darparu gan Croeso Cymru
06: Erthygl mewn papur newydd lleol\cenedlaethol
07: Mewn cyhoeddiadau masnach
08: Arall (manylwch)

Pa mor hawdd ydyn nhw i'w deall
Pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth a ddarparwyd
Pa mor ddiddorol ydyn nhw i'w darllen
Pa mor berthnasol ydyn nhw i'ch busnes

C8 Ar raddfa o 1 i 5, gydag 1 yn golygu 'Gwan iawn' a 5 yn golygu 'Da iawn', beth yw eich barn am yr adroddiadau ymchwil a'r cipolwg ar y farchnad rydych wedi eu gweld o ran...?

01: 1 - Gwan iawn
02: 2
03: 3
04: 4
05: 5 - Da iawn

C9 Pam nad ydych erioed wedi darllen unrhyw adroddiad ymchwil neu gipolwg ar y farchnad a gynhyrchwyd gan Croeso Cymru?
HOLWCH YN FANYLACH: Unrhyw reswm arall?
PEIDIWCH AG ANNOG - COD AR GYFER POB UN A GRYBWYLLIR

01: Nid oes gennyf amser
02: Nid yw darllen adroddiadau ynghylch cipolwg ar y farchnad\adroddiadau ymchwil o ddiddordeb i mi
03: Nid wyf yn gwybod ymhle mae'r wybodaeth
04: Nid yw'n berthnasol i fy musnes(au)
05: Nid oeddwn yn ymwybodol eu bod yn cynhyrchu deunydd o gwbl
06: Arall (manylwch)

C10 Sut fath o adroddiadau ymchwil neu adroddiadau gyda chipolwg ar y farchnad y dylai Croeso Cymru eu cynhyrchu yn eich tyb chi a
fyddai o fantais i'ch busnes?
COFNODWCH AIR AM AIR

C11 O'r dewisiadau canlynol, ym mha fformat fyddech chi'n dymuno cael yr adroddiadau ymchwil neu adroddiadau sy'n rhoi cipolwg ar y
farchnad gan Croeso Cymru?
HOLWCH YN FANYLACH: Rhywbeth arall?
DARLLENWCH YN UCHEL - COD AR GYFER POB UN A GRYBWYLLIR

01: Cyflwyniadau
02: Adroddiadau ymchwil
03: Crynodebau ymchwil
04: Gweithdai
05: Gweminarau
06: Fideos ar-lein
07: Cylchlythyr \ e-newyddlen ymchwil
08: Arall (manylwch)

C12 Pa mor aml fuasech chi'n dymuno cael gwybodaeth o'r fath?
DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

01: Bob wythnos
02: Bob mis
03: Bob tri mis
04: Bob chwe mis
05: Yn flynyddol
06: Ddim mor aml â hynny

C13 Ac ar ba adegau o'r flwyddyn fuasech chi'n dymuno cael gwybodaeth o'r fath?
DARLLENWCH YN UCHEL - COD AR GYFER POB UN A GRYBWYLLIR

01: Drwy'r flwyddyn
02: Tymor y gwanwyn
03: Tymor yr haf
04: Tymor yr hydref
05: Tymor y gaeaf

C14a Ydych chi erioed wedi cymryd rhan yn yr Arolwg Atyniadau i Ymwelwyr, sy'n cael ei gynnal ar ran Croeso Cymru?
DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

01: Do - mi rydw i'n parhau i wneud
02: Do - ond nid ydw i'n gwneud hynny bellach
03: Naddo

C14b Ydych chi erioed wedi cymryd rhan yn yr Arolwg Deiliadaeth i Ymwelwyr, sy'n cael ei gynnal ar ran Croeso Cymru?
DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

01: Do - mi rydw i'n parhau i wneud
02: Do - ond nid ydw i'n gwneud hynny bellach
03: Naddo

C15 Pam rydych\wnaethoch gymryd rhan yn yr ymchwil hwn?
COFNODWCH AIR AM AIR

C16 Pam nad ydych yn cymryd rhan yn yr ymchwil hwn?
COFNODWCH AIR AM AIR

C17 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich lleoliad orau?
DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL

01: Glan y môr
02: Mewndirol
03: Trefol

C18 Pa mor hyderus ydych chi am dymor yr Haf?
DARLLENWCH YN UCHEL

01: Hyderus iawn
02: Eithaf hyderus
03: Ddim yn hyderus iawn
04: Ddim yn hyderus o gwbl

C19 Er mwyn ein helpu gyda'r dadansoddiad, alla i ofyn, ydy'ch busnes wedi'i raddio neu ei achredu gan Croeso Cymru?

01: Ydy
02: Nac ydy

DARLLENWCH YN UCHEL

Diolch am roi o'ch amser.
I gadarnhau, fy enw yw yn ffonio o Beaufort Research a bod yr arolwg hwn wedi cael ei gynnal yn unol â Chod Ymarfer y Gymdeithas
Ymchwil Marchnata.
Os hoffech wirio ein cymwysterau gallwch ffonio'r Gymdeithas Ymchwil Marchnata am ddim ar 0500 39 69 99.

Diolch eto a hwyl fawr.